# Croeso i Ddôl Idris!

Parcdir hardd ar odre Cadair Idris yn ne Parc Cenedlaethol Eryri yw Dôl Idris. Yma ceir tua ¾ milltir o lwybr hygyrch sy'n mynd â chi o gwmpas y safle, gan fynd heibio llyn bach bendigedig a'i risiau pysgod, coed egsotig ac adfail hen labordy diod meddal!

Rhoddwyd y parcdir yn anrheg i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gan Mr Ivor Idris ar ddechrau'r 1980au. Ei deulu ef oedd yn gyfrifol am gynhyrchu'r diod sinsir enwog 'Idris', sydd heddiw'n cael ei gynhyrchu gan y cwmni byd eang 'Britvic'.

Mae'r safle yn agos i'r A487 ac mae yma faes parcio a thoiledau cyhoeddus, yn ogystal â Chanolfan Ymwelwyr ac ystafell de Tŷ Te Cadair bum munud i ffwrdd ar droed (tymhorol - oriau agor ar gael ar eu tudalen 'Facebook' – manylion gyferbyn). Mae'r llwybr at y Ganolfan ac o gwmpas y safle yn wastad ac yn llydan ac felly'n addas ar gyfer cadeiriau olwyn a choetsys babanod. Yma hefyd mae dechrau llwybr Minffordd i gopa Cadair Idris.

# Welcome to Dôl Idris!

Dôl Idris is a beautiful parkland on the foothills of Cadair Idris in the south of the Snowdonia National Park. The site has around ¾ miles of accessible path to take you around the parkland, going past a picturesque little lake and its fish ladder, exotic trees and the remains of a soft drink laboratory!

The parkland was donated to the Snowdonia National Park Authority by Mr Ivor Idris early in the 1980's. It was his family who produced the famous ginger soft drink 'Idris', which is today produced by the global soft drink company 'Britvic'.

The site is near to the A487 where there is a car park and public toilet, as well as a Visitor Centre and Tŷ Te Cadair tea room which is a five minute walk away (seasonal - opening hours available on their Facebook page - see opposite for details). The path to the Centre and around the site is even and wide and therefore suitable for wheelchairs and infant buggies. The Minffordd path to the summit of Cadair Idris also starts from this location.




## Gwybodaeth Bellach/Further Information

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Snowdonia National Park Authority
www.eryri-npa.gov.uk
01766 770 274

Cyfoeth Naturiol Cymru/Natural Resources Wales
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
0300 065 3000

Tŷ Te Cadair Tea Room
www.facebook.com/tytecadairtearoom
01654 761 505

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

ERDF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Snowdonia National Park

Cymunedau a Natur
Communities and Nature

Teithiau Hawdd a Hardd

# Dôl Idris

Easy, Scenic Walks









Canolfan Ymwelwyr
Cadair Idris
Visitor Centre






## Canolfan Ymwelwyr a Thŷ Te Cadair

Dewch i ddysgu am fywyd gwyllt, mwynhewch gartŵn am Idris Gawr a gwylio lluniau byw o ystlumod yn y to. Cyn ei throi hi am adref, mwynhewch baned dda a chacen gartref!

## Visitor Centre and Cadair Tea Room

Come and learn about wildlife, enjoy a cartoon about Idris the Giant and watch a live feed of bats in the roof. Before setting off home – indulge in a piece of home baked cake and a nice cup of tea!



## Gwarchodfa Natur Genedlaethol

Mae Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cadair Idris a reolir gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn enwog am ei daeareg trawiadol a'i bywyd gwyllt. Mae Llwybr Minffordd i gopa Cadair Idris yn lwybr poblogaidd sy'n arwain trwy'r Warchodfa.

## National Nature Reserve

The Cadair Idris National Nature Reserve which is managed by Natural Resources Wales is renowned for its striking geology and wildlife. The Minffordd Path to the summit of Cadair Idris is a popular route that leads through the Reserve.



## Ystlumod

Cadwch olwg am flychau ystlumod! Maent wedi eu gosod er mwyn monitro'r naw rhywogaeth o ystlum sydd i'w cael yma, gan gynnwys yr Ystlum Pedol Leiaf prin.

## Bats

Look out for bat boxes! They have been installed to monitor the nine species of bats that can be found here, including the rare Lesser Horseshoe Bat.



Llun/Photo: Lee Be

## Llyn Dôl Idris

Mae adar fel Bronwen y Dŵr a'r Siglen Lwyd yn magu ar lannau'r llyn. Ger y bompren mae grisiau pysgod, sy'n caniatáu i eogiaid gyrraedd y nentydd.

## Dôl Idris Lake

Birds such as the Dipper and Grey Wagtail breed on the lake shores. Near the footbridge there is a fish ladder that enables salmon to reach the streams.